OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 1 (Cy. 1)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Ymuno tua'r Gogledd yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *3 Ionawr 2023* |
| *Yn dod i rym* | *9 Ionawr 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffordd Ymuno tua'r Gogledd yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Ionawr 2023.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw cerbydau sy’n danfon llwythi annormal i Ddepo Trafnidiaeth Cymru yn Ffynnon Taf;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 9 Ionawr 2023 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt ar y darn o ffordd ymuno tua’r gogledd y gefnffordd yn Ffynnon Taf, Rhondda Cynon Taf sy’n ymestyn o’i chyffordd â Cardiff Road, 180 o fetrau i’r gogledd-orllewin o Gylchfan Cyfnewidfa Ffynnon Taf hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua’r gogledd y gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 3 Ionawr 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru.